# Crynodeb Gweithredol

## Cefndir yr Arolwg

1.1 Comisiynwyd Strategic Marketing gan Lywodraeth Cymru i gynnal arolwg o gynhyrchwyr bwyd a diod yng Nghymru.  Cynhaliwyd arolwg dros y ffôn o 300 o fusnesau cynhyrchu yn y sector bwyd a diod rhwng Chwefror a Mawrth 2013.

## Demograffeg a Phroffil o'r Sector

1.2 Mae'r sector yn parhau i fod yn sector aeddfed lle mae 72% o'r busnesau wedi bod yn weithredol ers 2006.  Mae oddeutu un ym mhob deg (9%) wedi bod yn masnachu ers 2010.  Gan nad yw cronfa ddata'r Is-adran Datblygu Bwyd a'r Farchnad wedi cael ei diweddaru ers 2011, nid oes unrhyw fusnesau newydd diweddar o'r bron wedi'u cynnwys yn y sampl.

1.3 Mae'r rhan helaethaf o'r sector yn cynnwys busnesau bach gyda 61% ohonynt â throsiant o lai na £500,000 ac mae'r mwyafrif o'r cwmnïau hyn yn cyflogi llai na 10 o weithwyr. Mae gan un busnes ym mhob deg (8%) drosiant gwerthu o rhwng £1m a £5m a 6% ohonynt â throsiant o £5 miliwn neu fwy.

1.4 Yn nodweddiadol, microfusnesau yw'r cynhyrchwyr ac mae 81% ohonynt yn cyflogi rhwng 1 a 9 o weithwyr. Mae 14% ohonynt yn cyflogi rhwng 10 a 49 o weithwyr ac mae'r gweddill yn cyflogi 50 neu fwy o weithwyr. 14.1 o bobl yw nifer cyfartalog y gweithwyr. Mae 82% o'r gweithwyr mewn swyddi llawn amser a 18% yn gweithio rhan amser.

1.5 Mae 29% o'r busnesau a gafodd eu cyfweld wedi'u lleoli yn Ne-ddwyrain Cymru, 18% yng Nghanolbarth Cymru, gyda 28% yn y Gogledd a 25% yn y De-orllewin.

1.6 Mae'r mwyafrif o'r busnesau yn gynhyrchwyr annibynnol gyda dim ond 8% ohonynt yn rhan o sefydliad mwy. Mae 14% o'r rheiny sy'n cyflogi rhwng 10 a 49 o weithwyr yn rhan o sefydliad mwy, sy'n llai na'r 20% oedd yn berthnasol i'r categori hwn y llynedd. Mae bron i hanner y busnesau mwy (46%) sy'n cyflogi 50 neu fwy o weithwyr yn rhan o sefydliad mwy. Mae rhiant gwmnïau wedi'u lleoli mewn mannau domestig i raddau helaeth gyda 57% wedi'u lleoli yn rhywle arall yng Nghymru a 37% yn rhywle arall yn y DU.  Dim ond 8% sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r DU.

1.7 Mae dosbarthiad y sector yn ôl categori'r cynnyrch yr un fath â'r llynedd fwy neu lai. Yn y sectorau Cig a Phobi a Melysion y mae ychydig dros hanner yr holl gynhyrchwyr (52%).   Ychydig dros un cynhyrchydd ym mhob deg (12%) sydd yn y sector llaeth ac wyau.  Mae 10% o fusnesau'r sector yn cynhyrchu Cyffeithiau a sawsiau.  Mae categorïau eraill y sector yn cynrychioli rhwng 1% ac 8% o'r holl gynhyrchwyr.

## Y Broses Gynhyrchu a Gweithrediadau Busnes

1.8 Mae gan 37% o'r holl fusnesau gynllun busnes maent yn ei ddefnyddio i'w helpu i reoli eu busnes.  Mae hyn wedi gostwng o'r 45% yn 2012 a allai adlewyrchu problemau'n ymwneud â chael gafael ar gyllid, sef un o'r prif ysgogiadau i lunio cynllun busnes. Mae'r mwyafrif o fusnesau sy'n cyflogi 50 neu fwy o weithwyr (92%) wedi sefydlu cynlluniau busnes. Mae gan 58% o'r busnesau sy'n cyflogi rhwng 10 a 49 o weithwyr gynllun busnes – sy'n llai na'r 65% yn 2012.  Fel yn yr arolwg blaenorol, y busnesau lleiaf sydd lleiaf tebygol o ddefnyddio cynllun busnes (30%) ac mae hyn hefyd yn llai na'r 39% yn 2012.

1.9 Gan mwyaf, nid yw prosesau cynhyrchu wedi’u hawtomeiddio (50%) neu maent wedi'u hawtomeiddio'n rhannol (47%). Mae’r prosesau cynhyrchu wedi’u hawtomeiddio’n llawn yng nghyswllt un ym mhob deg busnes sy'n cyflogi rhwng 10 a 49 o weithwyr (9%) ac mae’r un peth yn wir yng nghyswllt 15% o fusnesau sy'n cyflogi 50 neu fwy o weithwyr. Ers 2012, mae awtomeiddio wedi dod yn fwy cyffredin ymysg busnesau sy’n cyflogi rhwng 10 a 49 o weithwyr gan mai dim ond 23% sydd heb gael eu hawtomeiddio o'i gymharu â’r 35% blaenorol.

1.10 Mae bron i hanner yr holl fusnesau (45%) wedi ennill un achrediad neu safon neu fwy, sy'n fwy na'r 37% yn 2012. Y safonau mwyaf cyffredin oedd Red Tractor (14%), SALSA (14%) a safon diogelwch bwyd fyd-eang BRC (11%).

## Cynaliadwyedd a Ffynonellau Lleol

1.11 Mae gweithredu ar fesurau amgylcheddol a chynaliadwyedd yn parhau i fod yn uchel ymysg cynhyrchwyr gyda 95% yn ymgymryd â rhyw fath o weithgaredd a dim ond 5% ddim yn gwneud hynny. Mae’r newid mwyaf ym maes arbed dŵr lle mae 77% o fusnesau wedi cymryd camau, sy'n uwch na'r 68% yn 2012. Mae cynnydd bychan o 3% wedi bod yng nghyswllt y rheiny sy'n gweithredu ar arbed ynni a lleihau costau dosbarthu sydd wedi codi i 82% a 67% yn y drefn honno. Mae ychydig llai o ddefnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy wedi bod – mae hyn wedi gostwng o 23% i 19% o fusnesau.

1.12 Mae dros hanner yr holl fusnesau (52%) yn dweud eu bod yn cael tri chwarter neu fwy o’u cynhwysion o ffynonellau yng Nghymru, sy'n dangos nad oes fawr o newid wedi bod ers 2012.

1.13 Mae mwy o fusnesau yn cael eu cynnyrch o ffynonellau lleol gan fod bron i ddwy ran o dair (62%) yn cael mwy na hanner eu cynhwysion o ffynonellau lleol, sy'n fwy na'r 57% yn 2012. Mae cyfran y busnesau sydd ddim yn cael dim o'u cynhwysion o ffynonellau lleol wedi gostwng o 14% i 9%. Mae cynnydd yn y maes hwn nid yn unig yn effeithio ar gynaliadwyedd ond hefyd ar ddatblygu ymdeimlad o le ymysg busnesau sy’n defnyddio cynnyrch lleol a datblygu twristiaeth bwyd.

## Cadwyn Gyflenwi

1.14 Mae cydweithio rhwng cynhyrchwyr a’u cwsmeriaid neu eu cyflenwyr yn parhau i fod ar lefelau tebyg i 2012, gyda 59% o fusnesau yn cydweithio fel hyn. Fel o’r blaen, mae hyn yn fwy cyffredin mewn busnesau sy’n cyflogi 10 neu fwy o weithwyr.

1.15 Y math mwyaf cyffredin o gydweithio a geir yw datblygu cynnyrch newydd (88%). Mae mwy o bwyslais ar ddatblygu cynnyrch newydd o gymharu â'r arolwg blaenorol. Crybwyllwyd ‘mynediad at farchnadoedd newydd’ gan un busnes ym mhob pump.

1.16 Dangosodd ychydig dros chwarter y busnesau (27%) ddiddordeb mewn cydweithio â chwmnïau tramor ond mae hyn yn apelio fwyaf at fusnesau sy’n cyflogi 10 neu fwy o weithwyr – 42% o'r rheiny sy'n cyflogi rhwng 10 a 49 o weithwyr a 62% o'r rheiny sy'n cyflogi 50 neu fwy o weithwyr. Mae gan y rheiny sydd eisoes yn cydweithio â chwsmeriaid neu gyflenwyr hefyd fwy o ddiddordeb yn hyn (36%) na’r rheiny sydd ddim (14%).

1.17 Mae mwy o fusnesau yn buddsoddi mewn datblygu cynnyrch newydd (55%) o gymharu â 2012 (47%). Fel o’r blaen, mae’r ymwneud â datblygu cynnyrch newydd

yn cynyddu gyda maint y busnes.  Gwelwyd y cynnydd mwyaf ymysg busnesau sy'n cyflogi rhwng 10 a 49 o weithwyr lle mae 77% yn buddsoddi mewn datblygu cynnyrch newydd o gymharu â 61% yn 2012.  Mae hanner yr holl ficrofusnesau yn buddsoddi yn hyn o gymharu â 43% o'r blaen.

1.18 Mae pob busnes bron sy'n buddsoddi mewn datblygu cynnyrch newydd yn defnyddio adnoddau mewnol (96%), sy'n uwch na'r ganran yn 2012, sef 81%.  Mae 15% yn defnyddio cymorth allanol o gymharu â 28% yn yr arolwg blaenorol. Mae'n bosibl bod pwysau'r hinsawdd economaidd yn cyfrannu at y newid a fu o ran defnyddio adnoddau mewnol yn erbyn defnyddio adnoddau allanol.

1.19 Mae dau gynhyrchydd ym mhob 5 (41%) wedi buddsoddi mewn gwella effeithlonrwydd a chapasiti cynhyrchu yn y flwyddyn a aeth heibio. Mae cyfran uwch o fusnesau sy'n cyflogi 10 neu fwy o weithwyr wedi buddsoddi, gyda 58% yn y grŵp sy'n cyflogi rhwng 10 a 49 o weithwyr a 77% yn y grŵp sy'n cyflogi 50 neu fwy o weithwyr yn gwneud hynny.

1.20  I gyd gyda'i gilydd, roedd y busnesau a gafodd eu cyfweld wedi buddsoddi oddeutu £33m y llynedd gyda chyfartaledd o £331,000.  Mae 84% o'r buddsoddiadau wedi deillio o fusnesau sy'n cyflogi 50 neu fwy o weithwyr, gyda buddsoddiad o £2.8m gan bob busnes ar gyfartaledd.  Roedd busnesau sy'n cyflogi rhwng 10 a 49 o weithwyr wedi buddsoddi £189,000 ar gyfartaledd, o gymharu â £24,000 ymysg y rheiny sy'n cyflogi llai na 10 o weithwyr.

1.21 Roedd un busnes ym mhob pump wedi cael cymorth gan y sector cyhoeddus tuag at eu buddsoddiad. Mae cymorth gan y sector cyhoeddus yn digwydd fwyaf cyffredin ymysg busnesau sy'n cyflogi 50 neu fwy o weithwyr lle'r oedd dau fusnes ym mhob pump (41%) wedi cael cymorth o gymharu â chwarter (24%) y busnesau sy'n cyflogi rhwng 10 a 49 o weithwyr ac 16% o'r rheiny sy'n cyflogi rhwng 1 a 9 o weithwyr.

## Cwsmeriaid a Marchnadoedd

1.22 Mae pob busnes yn tueddu i ddosbarthu mewn marchnadoedd lleol er bod hyn yn llai cyffredin ymysg y cyflogwyr mwyaf (85%).    Mae cyfran y busnesau sy'n cyflogi rhwng 10 a 49 o weithwyr sy'n dosbarthu ledled Cymru wedi codi o 65% i 79% ers 2012 ac mae 62% yn dosbarthu ar draws y DU, sy'n uwch na'r ffigur o 57% yn yr arolwg diwethaf.

1.23 Mae'r mwyafrif o fusnesau sy'n cyflogi 50 neu fwy o weithwyr yn dosbarthu'n genedlaethol ac i farchnadoedd y DU. Mae 12% o'r holl gynhyrchwyr yn dosbarthu'n rhyngwladol ac mae hyn i'w weld fwyaf mewn busnesau sy'n cyflogi 10 neu fwy o weithwyr.

1.24 Mae 72% o gynhyrchwyr yn gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd o gymharu ag 83% yn 2012 ac mae hon yn parhau i fod yn farchnad bwysig i'r holl gwmnïau ac eithrio'r cwmnïau mwyaf. Mae 52% yn gwerthu i siopau annibynnol a dyma'r farchnad a gaiff ei chrybwyll amlaf yng nghyswllt busnesau sy'n cyflogi rhwng 10 a 49 o weithwyr (60%).   Mae 40% yn gwerthu i'r farchnad lletygarwch ac arlwyo/gwasanaeth bwyd, 27% yn gwerthu i gyfanwerthwyr/dosbarthwyr, 17% yn gwerthu i siopau cadwyn ac mae 7% yn gwerthu drwy allforio'n uniongyrchol – i Ffrainc, UDA, Sbaen a'r Iseldiroedd yn nodweddiadol.

1.25 Daw oddeutu hanner yr holl drosiant (48%) o werthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd, gydag 20% ohono ar gyfartaledd yn deillio o werthu i siopwyr annibynnol a 14% ohono yn deillio o'r sector lletygarwch ac arlwyo/gwasanaeth bwyd.

1.26 Mae 22% o'r rheiny nad ydynt yn allforio ar hyn o bryd â diddordeb mewn gwneud hynny, sydd wedi codi o 17% yn 2012. Busnesau sy'n cyflogi rhwng 10 a 49 o weithwyr sy'n dangos y diddordeb mwyaf (37%), sydd wedi codi o 29% yn yr arolwg blaenorol.

1.27 Mae 46% o gynhyrchwyr yn dweud eu bod yn cyflenwi'r sector twristiaeth ar hyn o bryd. Nid yw ychydig dros draean o'r busnesau (35%) erioed wedi ystyried cyflenwi'r sector hwn.

## Marchnata

1.28 Mae'r themâu marchnata yn parhau i fod yn ddigon tebyg i'r arolwg blaenorol. Mae 74% o gynhyrchwyr yn cyfeirio at eu cynnyrch fel cynnyrch 'Cymreig' wrth farchnata neu ar eu deunydd pecynnu. Mae oddeutu dau ym mhob tri (62%) yn cyfeirio at eu cynnyrch fel cynnyrch 'lleol'. Mae 40% yn cyfeirio at eu cynnyrch fel cynnyrch 'rhanbarthol' ond mae hyn yn llai cyffredin ymysg busnesau sy'n cyflogi 50 neu fwy o weithwyr (23%).

1.29 Mae 44% o ymatebwyr yn ymwybodol o'r Cynllun Enw Bwyd Wedi'i Amddiffyn ac mae traean yn meddwl y gallai fod yn berthnasol i'w busnes.

## Cydweithio a Dosbarthu Cynnyrch

1.30 Mae 83% o gynhyrchwyr yn dosbarthu eu cynnyrch eu hunain ac mae 49% yn dosbarthu drwy wasanaeth casglu cwsmeriaid. Mae 33% yn dosbarthu drwy drydydd parti a dim ond 4% sydd wedi sefydlu trefniant cydweithredol.

1.31 At ei gilydd, ymateb cadarnhaol a gafwyd i'r syniad o gydweithio â phroseswyr a chynhyrchwyr bwyd eraill. Roedd dau gwmni ym mhob tri â diddordeb mewn un neu fwy o feysydd cydweithio posib. Y meysydd mwyaf poblogaidd o ran cydweithio yw 'cael mynediad i farchnadoedd newydd' (60%), datblygu cynnyrch newydd (50%) a gwerthu (42%).

## Cyfyngiadau ar Fusnesau a Chynlluniau ar gyfer y Dyfodol

1.32 Y pethau sy'n cyfyngu fwyaf ar ddatblygiad busnesau yw gorbenion/costau uwch ynghyd â chyllid a chael gafael ar gyllid. Roedd 29% o'r busnesau wedi crybwyll hyn yn ddigymell. Mae'r naill thema a'r llall yn adlewyrchu effaith yr hinsawdd economaidd bresennol.

1.33 Mae Cynhyrchwyr yn parhau i fod yn gymharol gadarnhaol am ddatblygiad eu busnesau yn y dyfodol. Mae 38% yn rhagweld y bydd nifer y gweithwyr a gyflogir ganddynt yn tyfu dros y ddwy flynedd nesaf ac mae hyn yn cynyddu yn y bandiau mwy. Mae 60% yn rhagweld y bydd nifer y gweithwyr a gyflogir ganddynt yn aros yr un fath. Dim ond 2% sy'n rhagweld y bydd nifer y gweithwyr a gyflogir ganddynt yn gostwng.

1.34 At ei gilydd, mae bron i chwe chynhyrchydd ym mhob deg (57%) yn disgwyl y bydd eu busnes yn ehangu yn y pum mlynedd nesaf o gymharu â 49% yn 2012. Mae wyth busnes ym mhob deg sy'n cyflogi 10 neu fwy o weithwyr yn rhagweld y bydd yn ehangu. Mae cynllun busnes yn ei le gan hanner y busnesau sy'n rhagweld y byddant yn ehangu dros y pum mlynedd nesaf.

1.35 Mae ‘gwerthu'n uniongyrchol yn lleol' yn faes sydd â blaenoriaeth o ran datblygu'r farchnad yn y dyfodol yng nghyswllt 69% o'r ymatebwyr ond nid yw busnesau mwy yn ystyried hyn yn gymaint o flaenoriaeth. Mae busnesau sy’n cyflogi 50 neu fwy o staff yn dangos mwy o ddiddordeb mewn siopau Cenedlaethol (50%), arlwyo/lletygarwch lleol, gwasanaeth bwyd cenedlaethol neu farchnadoedd allforio (42% yr un).

## Cymorth Allanol i Fusnesau

1.36 Y meysydd mwyaf cyffredin i gael cymorth gan yr Is-adran Datblygu Bwyd a’r Farchnad ar eu cyfer oedd yng nghyswllt cynnwys enw yng Nghyfeiriadur Bwyd a Diod ‘Cymru: Y Gwir Flas’ (27%) a bod yn rhan o wobrau ‘Cymru: Y Gwir Flas’ (21%). Mae 14% wedi cael cyngor busnes neu gymorth ymgynghorol, mae 13% wedi cymryd rhan fel arddangoswr mewn arddangosfa, digwyddiad neu ŵyl fwyd wedi’i noddi/ei chefnogi gan LIC ac mae 13% wedi cael cymorth grant.

1.37 Mae tri chwarter y cynhyrchwyr (73%) wedi clywed am o leiaf un o'r canolfannau bwyd, sy'n gynnydd ar 64% y llynedd.

1.38 Gofynnwyd i gynhyrchwyr oedd yn ymwybodol o un neu fwy o’r canolfannau bwyd os oeddynt wedi defnyddio unrhyw un/rai ohonynt yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd ychydig llai na thraean wedi gwneud hynny (32%). Y ganolfan oedd yn cael ei defnyddio amlaf oedd Canolfan Bwyd Cymru, Horeb. Dywedodd 14% eu bod wedi defnyddio'r ganolfan hon o gymharu ag 11% yng nghyswllt Llangefni a 10% yng nghyswllt Caerdydd.

1.39 Nid oedd cyfran fawr o ymatebwyr wedi gwneud unrhyw awgrymiadau o ran pa wasanaethau y byddent yn hoffi eu gweld, yn bennaf oherwydd bod ganddynt ychydig o brofiad, neu ddim profiad o gwbl, o Ganolfannau Bwyd. Ymysg yr awgrymiadau ynglŷn â pha wasanaethau y dylid eu darparu oedd cymorth gyda datblygu cynnyrch newydd (12%) a phrofi cynnyrch (10%). Roedd 10% wedi crybwyll cyrsiau sgiliau a hyfforddiant, ac roedd llawer o’r rhai oedd wedi crybwyll hyn yn perthyn i’r sectorau Cig a Phobi a Melysion.

1.40 Y prif feysydd a nodwyd ar gyfer cael cymorth yn y dyfodol gan LIC oedd cyllid/grantiau a mynediad at gyllid (37%). Gwnaeth llawer ohonynt y sylw bod angen cynnydd cyffredinol yn y cymorth grant sydd ar gael, yn enwedig yng nghyswllt tyfu ac ehangu, busnesau sy'n cychwyn, offer newydd, hyfforddiant a datblygu.

1.41 Byddai busnesau hefyd yn hoffi gweld nifer o wahanol fathau o gymorth gan LIC, gan gynnwys cefnogaeth/cyngor busnes ymarferol, cefnogaeth marchnata a chymorth gyda chostau busnes.